

Hanes Sant Carannog



Gan y Celt Sant Carannog y cafodd pentref Llangrannog ei enw, gyda 'llan' yn awgrymu eglwys, ac felly 'Llangrannog' yw Eglwys Carannog.

Roedd Sant Carannog yn fab i Corun, ac yn wŷr i'r brenin Ceredig a roddodd ei enw i'n sir, Ceredigion. Gwrthododd Carannog etifeddu'r orsedd ar ôl ei dad, a gwrthod llywodraethu Deheubarth Cymru.

Rydym yn gwybod bod Carannog yn llewyrchus yn yr ardal hon rhwng 480 OC a 540 OC, ac iddo sefydlu eglwys yma yn agos i'r safle presennol. Yn ôl y chwedl, byddai colomen wastad yn arwain y sant

ac yn dod â negeseuon iddo oddi wrth Duw. Mae un chwedl yn dweud ei fod yn byw fel meudwy mewn ogof ar lethr ar ôl iddo adael ei dad. Yno, ymroddai i weddio ac i astudio'r ysgrythurau. Un diwrnod, roedd yn naddu ffon wrth yr ogof pan ddechreuodd colomen hedfan i ffordd gyda'r naddion. Dilynodd Carannog y golomen a darganfod i'r naddion gael eu gosod mewn man yn y cwm islaw'r ogof. Gwelai hyn yn arwydd gan Duw, ac adeiladodd ei eglwys gyntaf o blethwaith a chlai lle mae'n Heglwys yn sefyll nawr, ac mae ogof uwchlaw o hyd.

Priodolir llawer o weithredoedd gwyrthiol i Sant Carannog. Dwedir y deuai pererinion o bob man i yfed o ddyfroedd sanctaidd Ffynnon Fair sy gyferbyn â thŷ ar ben uchaf y fynwent o'r enw 'Ffynnon Fair'.

Ymhen ychydig, penderfynodd Carannog fynd yn genhadwr. Teithiodd i Llydaw (lle sefydlodd Carantec), i Gernyw (Crantock) ac i Wlad yr Haf (Carhampton). Teithiodd hefyd i Iwerddon lle sefydlai eglwysi a gwella cleifion. Nes ymlaen, dychwelodd i Gymru gydag ychydig o ddisgyblion i fyw yn yr un ogof am adeg fer. Dychwelodd wrth ei hunan i Iwerddon ble bu farw 16eg o Fai, a chael ei gladdu mewn mynachdy yr oedd wedi'i sefydlu yno.